# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mawrth, 6 Mai 2014**

Amser:
**09.00**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Fay Buckle**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8041
Publicaccounts.comm@Wales.gov.uk

## Agenda

### 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon (09:00)

### 2 Papurau i'w nodi (09:00) (Tudalennau 1 - 3)

### 3 Cyllid Iechyd 2012-13 a Thu Hwnt: Trafod yr ymateb gan Lywodraeth Cymru (09:05 - 09:30) (Tudalennau 4 - 14)

PAC(4)-12-14 (papur 1)
PAC(4)-12-14 (papur 2)

### 4 Cyflogau Uwch-reolwyr: Sesiwn dystiolaeth 5 (09:30-10:30)

(Tudalennau 15 - 125)
Briff ymchwil

Mark Jones, Pennaeth Coleg Gŵyr a Chadeirydd Colegau Cymru

### 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd

## o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol: (10:30)

Eitemau 6 & 7

## 6 Cyflogau Uwch-reolwyr: Trafod y dystiolaeth a gafwyd (10:30-10:45)

## 7 Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon: Trafod yr adroddiad drafft (10:45-11:00) (Tudalennau 126 - 156)

PAC(4)-12-14 (papur 3)

Eitem 2

# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 29 Ebrill 2014** |
| Amser: | **09.00 – 10.51** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_300000_30_04_2014&t=0&l=en

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar AC (Cadeirydd)**<br>**William Graham AC**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Alun Ffred Jones AC**<br>**Julie Morgan AC**<br>**Jenny Rathbone AC**<br>**Aled Roberts AC**<br>**Sandy Mewies AC** |
| Tystion: | **Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Fay Buckle (Clerc)**<br>**Meriel Singleton (Ail Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

1.2 Gwnaeth Jenny Rathbone ddatgan buddiant fel Cadeirydd y Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan.

## 2 Papurau i'w nodi

3.1 Nodwyd y papurau.

2.1 Sesiwn ymadawol: Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, Llywodraeth Cymru: Llythyr gan David Sissling (27 Mawrth 2014)

## 3 Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG: Trafod rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru

3.1 Trafododd Aelodau'r ymateb gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a chytunwyd i ystyried y wybodaeth a geir ganddo ym mis Mehefin a mis Medi. Bydd y Pwyllgor yn dychwelyd at y mater hwn yn dilyn memorandwm Archwilydd Cyffredinol Cymru a gynlluniwyd ar y cynnydd a wnaed o ran lleihau'r diffyg ariannol ar hawliadau ac ar lansiad y fframwaith diwygiedig.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Ariannu strwythurol yr UE: Sesiwn friffio gan Swyddfa Archwilio Cymru

5.1 Cafodd yr Aelodau sesiwn friffio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar *Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd*.

5.2 Cytunwyd y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn ceisio ymateb i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru.

5.3 Ar ôl i'r ymateb ddod i law, bydd y Pwyllgor yn ystyried a fydd yn cynnal ymchwiliad i'r mater hwn.

## 6 Arian cyhoeddus i Ganolfan Cywain – Y Bala Sesiwn friffio gan Swyddfa Archwilio Cymru

6.1 Cafodd yr Aelodau sesiwn friffio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar *Arian cyhoeddus i Ganolfan Cywain – Y Bala.*

6.2 Cytunwyd y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn ceisio ymateb i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru.

6.3 Ar ôl i'r ymateb ddod i law, bydd y Pwyllgor yn ystyried a fydd yn cynnal ymchwiliad i'r mater hwn.

## 7 Gwasanaethau awyr o fewn Cymru, rhwng Caerdydd ac Ynys Môn: Trafod y wybodaeth bellach a'r camau nesaf

7.1 Trafododd yr Aelodau yr ymateb gan Gyfarwyddwr Cyffredinol, Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth a chytunwyd i ysgrifennu ato yn ceisio eglurhad pellach ar nifer o faterion.

## 8 Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: Trafod yr adroddiad drafft

8.1 Oherwydd cyfyngiadau amser, trafododd yr Aelodau ran o'r adroddiad drafft a byddant yn dychwelyd at yr eitem hon mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**YMATEB I ADRODDIAD PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU AR GYLLID IECHYD 2012-2013 A THU HWNT.**

**Adroddiad a gyhoeddwyd ar 6 Mawrth 2014**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn croesawu'r adroddiad hwn ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r 12 o argymhellion yn yr adroddiad.

**Argymhelliad 1.**
***Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi rhesymeg eglur ar gyfer dyraniadau cyllid o adnoddau ychwanegol i gyrff y GIG yn ystod y flwyddyn. Byddai hyn yn caniatáu mwy o dryloywder ac eglurder mewn cyllidebau ac yn helpu i sicrhau bod adnoddau yn cael eu dyrannu'n briodol a gwerth am arian.***

***Ymateb: Derbyn***

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i gael mwy o dryloywder ac eglurder o ran dyraniadau cyllideb a'r rhesymeg sy'n sail iddynt. Er enghraifft gwnaed datganiad gan y Gweinidog Iechyd ym mis Hydref 2013 yn nodi'n glir y broses a'r rhesymeg dros y dyraniad ychwanegol a ddarparwyd yn 2013-14.

At hynny, yn dilyn cyflwyno Deddf Cyllid y GIG (Cymru) a'r trefniadau cynllunio newydd a chadarnach sy'n sail iddi, bydd gan Fyrddau Iechyd sicrwydd ac eglurder o'u dyraniadau cyllideb am y cyfnod cynllunio. Bydd unrhyw hyblygrwydd ariannol ychwanegol a ddarperir dan awdurdod Deddf Cyllid y GIG (Cymru) ond yn cael ei roi pan fydd achos busnes clir yn cefnogi'r cais, gan amlinellu'r rhesymau dros a sut y caiff yr adnoddau ychwanegol eu defnyddio. Yn yr un modd caiff unrhyw ddyraniadau pellach a wneir yn ystod y flwyddyn eu hategu gan resymeg clir a thryloyw ar sut y bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio a'r canlyniadau sy'n rhaid eu cyflawni.

**Dyddiad gweithredu** :***Wedi'i weithredu ac yn parhau***

**Argymhelliad 2.**
***Fel yr argymhellwyd yn adroddiad blaenorol y Pwyllgor, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn dwyn uwch reolwyr i gyfrif yn fwy cadarn, er mwyn sicrhau tryloywder ar gyfer penderfyniadau ariannol. Yn benodol, mae'r Pwyllgor eisiau gweld proses drylwyr yn cael ei sefydlu er mwyn sicrhau atebolrwydd am unrhyw adnoddau ychwanegol a ddarperir yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru neu gyrff eraill y GIG at ddibenion penodol fel broceriaeth.***

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r angen i ddwyn uwch reolwyr i gyfrif. Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol o'r ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n agos â Swyddfa Archwilio Cymru ac AGIC i sefydlu fframwaith newydd ar gyfer trosglwyddo i lefel uwch ac ymyrryd. Mae'r fframwaith hwn yn cynnwys y camau i'w cymryd pan na fydd cyflawni a pherfformiad yn bodloni'r disgwyliadau. Gall hyn olygu amrywiaeth o gamau gweithredu, o adolygiadau sicrwydd syml i ymyrraeth gwbl bwrpasol.

Bydd swyddogion yn cyfarfod yn fisol â'r Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau, yn ogystal â chael gwybodaeth fanwl yn fisol i ganfod a yw'r sefydliad yn cyflawni'n unol â'i gynlluniau. Cefnogir hyn gan gyfarfodydd ar gyfer meysydd polisi penodol yn ôl y gofyn. Cesglir yr wybodaeth o'r cyfarfodydd hyn drwy gyfarfodydd misol o'r Bwrdd Cyflenwi Integredig a gynhelir o fewn Llywodraeth Cymru. Mae'r broses hon hefyd yn golygu dull mwy integredig o reoli perfformiad y gwasanaethau Iechyd, a chynlluniau cysylltu, blaenoriaethau, cyllid a pherfformiad gwell.

Caiff uwch reolwyr eu dwyn i gyfrif drwy'r trefniadau hyn.

Mae'r fframwaith newydd ar gyfer trosglwyddo i lefel uwch ac ymyrryd i'w weld o fewn adran cyhoeddiadau gwefan Llywodraeth Cymru.

Dyddiad gweithredu: ***Wedi'i weithredu ac yn parhau***

**Argymhelliad 3.**
***Mae'r Pwyllgor yn argymell, er mwyn ehangu tryloywder ac atebolrwydd, bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi sefyllfa ariannol fisol GIG Cymru mewn ffordd amserol a hygyrch***

**Ymateb: Derbyn**

Mae gwybodaeth fonitro fanwl, sy'n dangos y sefyllfa hyd yn hyn a'r rhagolygon ar gyfer diwedd y flwyddyn gyfredol, ynghyd â'r sylwadau priodol, yn cael eu rhoi i Lywodraeth Cymru bob mis o fewn 9 diwrnod gwaith i ddiwedd y mis. O ystyried natur gymhleth a lefel yr wybodaeth fanwl y gofynnir amdani ystyrir bod hon yn broses gyflwyno amserol ac effeithlon iawn.

Mae sefyllfa ariannol fisol pob sefydliad GIG yn cael ei chyhoeddi ar hyn o bryd fel
rhan o'u papurau Bwrdd misol, ac er bod yr wybodaeth hon eisoes ar gael i'r cyhoedd ar lefel sefydliadol, bwriad Llywodraeth Cymru yw cyhoeddi sefyllfa'r holl sefydliadau ar y cyd bob chwarter hefyd.

Rhoddir ystyriaeth bellach i'r ffordd fwyaf priodol o wneud hyn.

**Dyddiad gweithredu:** ***Gorffennaf 2014***

**Argymhelliad 4.**
***Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut mae'n cyflwyno cyllidebau yn y dyfodol er mwyn sicrhau ei bod yn esbonio'n llawn - yn nhablau'r gyllideb a'r adroddiad naratif ategol - effaith unrhyw newidiadau sylweddol yn dilyn y gyllideb atodol ar gymariaethau o flwyddyn i flwyddyn.***

***Ymateb: Derbyn***

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella'n barhaus y modd y caiff gwybodaeth am y Gyllideb ei chyflwyno gyda'r nod o wella tryloywder a chefnogi proses graffu effeithiol y Cynulliad. Yn unol â hyn, mae'r Gweinidog Cyllid wedi gweithio'n agos â'r Pwyllgor Cyllid yn y blynyddoedd diwethaf i wella tryloywder a chyflwyniad deunydd y gyllideb, gan gynnwys y sail orau ar gyfer cymharu cynlluniau gwariant. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd o'r flwyddyn ariannol flaenorol fel gwaelodlin.

Fodd bynnag mae Llywodraeth Cymru yn derbyn nad oedd cyflwyno'r cyllid iechyd yng Nghyllideb Ddrafft yr hydref diwethaf yn adlewyrchu'n llawn effaith y dyraniad i iechyd yn ystod y flwyddyn, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft. Dyma pam bod Llywodraeth Cymru wedi cynnwys troednodyn i'r Tabl cymaradwy yn y Gyllideb Derfynol, cam a gafodd groeso gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i edrych ar ffyrdd o wella cyflwyno deunydd y Gyllideb gan gynnwys cymariaethau o un flwyddyn i'r llall, mewn Cyllidebau yn y dyfodol.

**Dyddiad gweithredu:** ***Wedi'i weithredu***

**Argymhelliad 5.**
***Mae'r Pwyllgor yn argymell bod anghenion y boblogaeth leol, gwerth am arian a thryloywder yn ystyriaethau allweddol yng nghwmpas yr Adolygiad o'r Sail Ddyrannu ac na ddylid gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r fformiwla ddyrannu heb ystyriaeth lawn o effaith bosibl ailddosbarthu ar wasanaethau iechyd lleol.***

**Ymateb:** ***Derbyn***

Rhoddwyd ymrwymiad i adolygu sail y dyraniad refeniw o fewn cyhoeddiad gweledigaeth pum mlynedd Llywodraeth Cymru, 'Law yn Llaw at Iechyd', ar gyfer y GIG yng Nghymru. Y prif ofyniad ar gyfer yr adolygiad o Ddyrannu Adnoddau fydd dosbarthu adnoddau'n deg yn unol ag anghenion y boblogaeth.  Mae'n bwysig nodi y bydd anghenion y boblogaeth leol, wrth ddatblygu fformiwla ddyrannu, yn cael eu defnyddio i bennu'r anghenion perthnasol, nid diamod o ran iechyd yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei bod yn hanfodol i sail y fformiwla fod yn dryloyw, yn ddealladwy ac yn ddibynadwy.

Mae gweithredu fformiwla ddyrannu wedi bod yn seiliedig yn flaenorol ar ddosbarthiad gwahaniaethol cyllid twf i'r ardaloedd hynny sy'n is na'r targed fel nad oedd unrhyw sefydliad yn gweld lleihad yn ei ddyraniad. Yng nghyd-destun cyfnod anodd i gyllid cyhoeddus bydd gweithredu'r fformiwla, gan gynnwys gwneud hynny fesul  cam, yn arbennig o ran unrhyw ailddosbarthu, yn golygu bod angen rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith bosibl.

Mae materion sy'n ymwneud ag anghenion y boblogaeth, gwerth am arian a thryloywder yn ystyriaethau allweddol sydd angen eu hystyried, ym mhob achos o ddyrannu adnoddau.

Bydd adroddiad ar y canfyddiadau cyntaf ym mis Rhagfyr 2015.

**Dyddiad gweithredu:** ***Adroddiad cyntaf Rhagfyr 2015***

**Argymhelliad 6.**
***Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu darn o waith i ystyried dulliau o broffilio pwysau posibl a sut y gellid defnyddio hwn fel dull rheoli effeithiol o fewn GIG Cymru.***

**Ymateb:**  ***Derbyn***

Mae hyn yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r Fframwaith Cynllunio newydd a gyhoeddwyd fis Tachwedd 2013.

Yn hanesyddol mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau gyflwyno proffiliau adfer lle mae perfformiad wedi syrthio'n is na'r safon ofynnol. Wrth ddatblygu'r Fframwaith Cynllunio newydd a'r canllawiau ar gyfer y broses Cynlluniau Tymor Canolig Integredig yn 2014-2017, rhoddwyd ystyriaeth i sut y gellid defnyddio'r proffiliau cyflenwi i gefnogi rheolaeth effeithiol o'r gwasanaethau iechyd. Mae hyn yn ganolog i ddull lle mae Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau yn cael eu rheoli'n gadarn yn erbyn cynlluniau y cytunwyd arnynt.

Mae'n ofynnol i'r holl Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau, drwy'r canllawiau cynllunio, gyflwyno proffiliau cyflenwi manwl ar gyfer yr ystod lawn o feysydd perfformiad haen 1 yn ogystal â chyllid. Defnyddir y

proffiliau hyn i reoli perfformiad y sefydliadau o fis Ebrill 2014, a bydd yn sail ar gyfer cyfarfodydd rheoli perfformiad o fewn y Fframwaith Cyflawni Cenedlaethol. Yna caiff perfformiad yn erbyn proffiliau a gynlluniwyd ei ddefnyddio i adolygu statws sefydliadau o ran trosglwyddo i lefel uwch, yn unol â'r Fframwaith newydd ar gyfer Trosglwyddo i Lefel Uwch ac Ymyrryd a ddatblygwyd mewn partneriaeth ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Cefnogir hyn yn ystod y flwyddyn drwy gynnal cyfarfodydd rheolaidd i drafod a rhannu gwybodaeth.

**Dyddiad gweithredu:** ***Wedi'i weithredu***

**<u>Argymhelliad 7.</u>**
***Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi'r broses ar gyfer cytuno ar y cyllidebau tair blynedd ar gyfer byrddau iechyd ac yn nodi ei phroses gyfredol a sut mae'n bwriadu datrys unrhyw anghydfod a allai godi yn ystod y broses hon.***

**Ymateb*: Derbyn***

Mae gan y broses ar gyfer cytuno ar y cyllidebau tair blynedd ar gyfer y Byrddau Iechyd gyswllt anorfod â'r broses o gytuno â chynlluniau Tymor Canolig (sy'n cynnwys cyllid, gwasanaeth, perfformiad y gweithlu, ac ansawdd), a nodwyd yn Fframwaith Cynllunio GIG Cymru a gafodd ei ddosbarthu i holl sefydliadau'r GIG ym mis Tachwedd 2013 (include a link to framework). Mae'r fframwaith hwn yn pennu cerrig milltir clir, sy'n cynnwys:

Gwelwyd cryfhau yng nghapasiti Cynllunio Tymor Canolig ar lefel Bwrdd ac Ymddiriedolaeth a chynnydd yn lefel y craffu a wneir o fewn Llywodraeth Cymru. Mae'r cynlluniau a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn destun asesiad amlddisgyblaethol eang, a'i ansawdd wedi'i sicrhau a'i wella gan yr wybodaeth arall sydd ar gael ar gryfder ac aeddfedrwydd trefniadau cynllunio o fewn Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau (gan gynnwys gwybodaeth a ddelir gan Swyddfa Archwilio Cymru ac AGIC).

Dim ond os bydd cynllun yn bodloni'r holl ofynion yn Fframwaith Cynllunio GIG Cymru y caiff cyllideb tair blynedd ei chymeradwyo. Pan nad yw Llywodraeth Cymru yn hapus bod y gofynion wedi'i bodloni gan Fyrddau a sefydliadau'r GIG, bydd yn nodi'r prif welliannau sydd eu hangen, ac yn y cyfamser yn datblygu cytundeb darparu (ar gyfer perfformiad craidd, cyllid, gweithlu, a gofynion ansawdd). Disgrifir hyn o fewn y Fframwaith Cynllunio fel y broses drosglwyddo i lefel uwch.

Dyddiad gweithredu: Wedi'i weithredu

**<u>Argymhelliad 8.</u>**

***Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymell, o ystyried peryglon cynllunio ariannol dros 3 blynedd, y dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol yn ofynnol:***

***a) Cynllun cwbl gytbwys dros dair blynedd i bob Bwrdd Iechyd ynghyd â manylion ategol***

***b) Cynllunio ariannol ar y cyd yn dangos sut y bydd cyllidebau yn cydbwyso ar draws y GIG cyfan bob blwyddyn (er mwyn aros o fewn DEL)***

***c) Cynlluniau wrth gefn manwl yn nodi sut fydd Byrddau Iechyd yn ymateb os na fydd arbedion a gynlluniwyd o fuddsoddiad ymlaen llaw yn cael eu gwireddu a/ neu y bydd pwysau ychwanegol o ran cost. Dylai'r cynlluniau wrth gefn hyn gynnwys asesiad o risgiau i gleifion/ gwasanaethau***

**Ymateb** ***: Derbyn***

Ym mis Tachwedd 2013 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fframwaith cynllunio diwygiedig a oedd yn nodi'r glir beth oedd yn ddisgwyliedig o'r broses gynllunio. Roedd hyn yn cynnwys gofyniad i ddangos yn glir yn eu cynlluniau integredig sut 'roedd y Byrddau Iechyd yn bwriadu cydbwyso eu sefyllfa ariannol dros gyfnod tair blynedd. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad yw hyn bob amser yn bosibl ar y cam cynllunio ac efallai y bydd angen cynnig hyblygrwydd ariannol dan awdurdod y Ddeddf Cyllid GIG (Cymru) newydd. Mae'r broses newydd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r cynlluniau. Caiff y rhain eu cadarnhau yn dilyn adolygiad o sefyllfa pob sefydliad ar y cyd a fforddiadwyedd unrhyw hyblygrwydd ariannol sy'n ofynnol o fewn pob blwyddyn ariannol.

Mae'n ofynnol bod cynllun pob sefydliad yn datgelu'n llawn yr asesiad risg i gyflenwi gwasanaeth a'i fod yn cyrraedd ei dargedau ariannol. Mae'r risgiau hyn yn cael eu monitro'n agos drwy gydol y flwyddyn drwy brosesau rheoli risg y sefydliadau, ochr yn ochr â nodi camau lliniarol a'r mesurau wrth gefn sydd angen eu cymryd mewn amgylchiadau nad oes modd eu rhagweld. Bydd mesurau wrth gefn yn ffurfio rhan o oruchwyliaeth Llywodraeth Cymru a byddant yn cael eu hystyried yng nghyd-destun yr holl adnoddau sydd ar gael.

**Dyddiad gweithredu: Wedi'i weithredu**

**Argymhelliad 9.**

***Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn llunio cyfres eglur o ganllawiau ar ddefnyddio arbenigedd allanol ar gyfer cynllunio ariannol. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am sbardunau yn***

***rhan o'r broses rheoli ariannol pan fyddai'n ofynnol i gyrff y GIG ddefnyddio cefnogaeth allanol.***

**Ymateb:** ***Derbyn***

Mae canllawiau'n bodoli ar hyn o bryd sy'n cefnogi ac yn helpu i reoleiddio'r defnydd o arbenigedd allanol gan sefydliadau'r GIG e.e. mae eu Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddilyn canllawiau'r Adran Iechyd ar 'gaffael a rheoli ymgynghorwyr yn y GIG'. Mae'r llawlyfr cyfrifon hefyd yn nodi canllawiau ar gyfer pryd y dylai sefydliadau'r GIG ystyried defnyddio ymgynghorwyr a hefyd mae'n ofynnol i'r holl gyrff cyhoeddus ddilyn gofynion 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru'.

Mae swyddogion yn paratoi cyngor i Weinidogion ar ganllawiau pellach i'r GIG a fydd yn cynnwys yr holl gefnogaeth allanol a all fod yn ofynnol i nifer o faterion cynllunio gwasanaeth, cyflenwi a /neu atebolrwydd, ac nid i gyllid yn unig. Rhagwelir y bydd canllawiau o'r fath yn cynnwys y sbardunau a'r defnydd o unrhyw arbenigedd allanol yn gysylltiedig â'r gofynion trosglwyddo i lefel uwch ac ymyrryd a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Efallai y bydd gofyn am gefnogaeth allanol mewn amrywiol ffurf ond rhaid i hyn fod yn ystyriaeth i unrhyw sefydliad sydd yn y categori uchaf o "fonitro ychwanegol". Bydd angen cytuno â Llywodraeth Cymru ar natur a defnydd unrhyw gefnogaeth allanol a bydd yr holl adroddiadau a gynhyrchir yn rhan o'r trefniadau monitro ychwanegol a rhaid iddynt gael eu copïo i Lywodraeth Cymru. Byddwn yn defnyddio neu'n datblygu fframweithiau caffael cenedlaethol ar gyfer cefnogaeth o'r fath gyda chydwasanaethau caffael y GIG er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian ar gyfer unrhyw gefnogaeth a ddarperir.

**Dyddiad gweithredu: Gorffennaf 2014**

**Argymhelliad 10.**
***Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Byrddau Iechyd i ddatblygu dulliau ar gyfer rhannu arfer da o ran cynllunio a rheoli ariannol/gwasanaeth ar draws GIG Cymru ar bob lefel. Gallai hyn gynnwys defnyddio model cyfnewid Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru.***

**Ymateb: Derbyn**

Fel rhan o'r broses o ddiweddaru cynlluniau 2013/14, cynhaliodd Llywodraeth Cymru broses adolygu gefnogol gan gymheiriaid a oedd yn cadarnhau'r angen am rannu arferion da fel rhan o ddatblygu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig. Roedd hyn yn cynnwys cynnal gweithdai ym mis Medi ac ym mis Tachwedd 2013. Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau i rannu eu

Cynlluniau Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2014/15 a 2016/17 ac i gynnal gweithdai er mwyn cael adborth oddi wrth y broses gynllunio gyfredol a nodi'r gwelliannau a'r gefnogaeth sy'n ofynnol ar gyfer cynlluniau'r dyfodol.

Hefyd, mae'r Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid, yn ystod 2013/14, wedi aildrefnu eu hagenda flaengar a'u cynllun gwaith i ganolbwyntio ar rannu arferion da a meincnodi. Mae hyn hefyd yn cynnwys cylch gorchwyl a rhaglenni gwaith yr is-grwpiau o Gyfarwyddwyr Cyllid i gynnwys arferion da.

Yr allwedd i rannu arferion da fydd drwy'r clinigwyr, a hynny gan ddefnyddio rhwydweithiau clinigol a grwpiau proffesiynol ac arbenigol eraill. Mae cryfder y grwpiau hyn yn darparu'r amgylchedd ar gyfer adolygiadau clinigol gan gymheiriaid ar draws ffiniau sefydliadol. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu fel thema allweddol drwy'r grŵp gofal iechyd darbodus, drwy Fyrddau sefydliadol a'r holl grwpiau proffesiynol.

**Dyddiad gweithredu: Wedi'i weithredu ac yn parhau**

<u>**Argymhelliad 11.**</u>
***Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio a yw'r gwahaniaethau o ran telerau ac amodau rhwng Cymru a Lloegr wedi arwain at wahaniaethau o ran cost-effeithiolrwydd a pha un a yw'r rhain yn cael eu cydbwyso gan fanteision o ran recriwtio a chadw. Dylai'r canfyddiadau hysbysu trafodaethau am y telerau ac amodau er mwyn sicrhau y gall Cymru ddenu aelodau staff o'r ansawdd cywir gan sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian.***

**Ymateb : Derbyn**

O ran y gwahaniaeth i gontractau ymgynghorwyr yng Nghymru, mae hyn eisoes yn fater sy'n dal i gael sylw gan Gymdeithas Feddygol Prydain ac fel rhan o'r fframwaith cysylltiadau ehangach â gweithwyr.

O ran staff ar gontract Agenda ar gyfer Newid (yr holl staff ar wahân i staff meddygol ac Uwch Reolwyr/ Gweithredwyr ar lefel uchel iawn) mae ymarfer negodi newydd ddod i ben ac mae'r Undeb Llafur a chynrychiolwyr staff wrthi'n ymgynghori â'u haelodau i ad-drefnu'r telerau ac amodau yng Nghymru fel eu bod yr un fath â rhai Lloegr. Dangosodd tystiolaeth ddiweddar i'r Corff Adolygu Cyflogau ym mis Medi 2013 nad yw recriwtio a chadw staff ar y contractau hyn yn achosi pryder. Bydd cylch gwaith parhaol y Tasglu Cyflog Strategol yn parhau i archwilio effaith y newidiadau cyfredol a/neu arfaethedig a bydd yn darparu'r sefyllfa ddiweddaraf am hyn ym mis Medi 2014.

**Dyddiad weithredu:** ***Wedi'i gweithredu***

**<u>Argymhelliad 12.</u>**
***Yng ngoleuni'r penderfyniad i ddadfuddsoddi mewn gwasanaethau, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu'r costau sy'n gysylltiedig â diogelu cyflogau yn GIG Cymru. Bydd hyn yn galluogi i gost a gwerth y polisi hwn gael ei benderfynu.***

**Ymateb :** ***Derbyn***

Mae'r costau sy'n gysylltiedig â diogelu cyflogau wedi'u darparu fel rhan o'r trafodaethau â'r Undebau Llafur fel rhan o waith y Tasglu Cyflog Strategol. Mae hyn wedi bod yn rhan o'r trafodaethau a'r cynigion parhaus sy'n cael eu cyflwyno gan gyflogwyr y GIG ac Undebau Llafur ar sut mae modd gwneud arbedion drwy ddiwygio polisïau presennol Cymru gyfan.

Un polisi o'r fath yw'r Polisi Newid Sefydliadol. Cytunwyd ar y polisi hwn yn wreiddiol gan Fforwm Partneriaeth Cymru a bu'n ddogfen gyfeirio i'r ad-drefnu a wnaed yn 2007 a 2009. Un o awgrymiadau cyflogwyr y GIG oedd rhoi sylw i'r hyn sydd yn eu barn hwy yn drefniadau diogelu tu hwnt o hael yn y Polisi Newid Sefydliadol.

Mae negodi'n parhau yn unol â thrafodaethau ehangach ar newidiadau pellach i delerau ac amodau'r Agenda ar gyfer Newid a chynaliadwyedd bil cyflog y GIG.

**Dyddiad gweithredu:** ***Wedi'i weithredu***

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Heol y Gadeirlan / Cathedral Road
Caerdydd / Cardiff CF11 9LJ
Ffôn / Tel: 029 20 320500
Ebost / Email: info@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr Darren Millar AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 30 Ebrill 2014 |
| Ein cyf: | HVT/2125/mjb |
| Tudalen: | 1 o 2 |

Annwyl Darren,

## CYLLID IECHYD 2012-13 A THU HWNT

Roedd llythyr y clerc, dyddiedig 16 Ebrill, yn gofyn am gyngor gennyf ynglŷn ag ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ynghylch *Cyllid Iechyd 2012-13 a Thu Hwnt*. Mae ymateb Llywodraeth Cymru yn gadarnhaol ac mae'n derbyn yn llawn bob un o argymhellion y Pwyllgor.

Yn gyffredinol, rwyf o'r farn bod ymateb Llywodraeth Cymru yn foddhaol. Mae llawer o'r ymatebion yn nodi bwriadau Llywodraeth Cymru mewn meysydd lle mae camau eisoes yn cael eu cymryd, megis y gwaith o gymeradwyo a gweithredu cynlluniau tair blynedd cyrff y GIG. Rwyf wedi sôn o'r blaen wrth y Pwyllgor fy mod wrthi'n ymgymryd â gwaith pellach i archwilio perfformiad a chyllid iechyd drwy gydol 2013-14, ac rwy'n bwriadu cyhoeddi fy nghanfyddiadau ddechrau hydref 2014. Bydd y gwaith hwnnw'n ystyried llawer o'r materion a nodir yn argymhellion y Pwyllgor. Os bydd fy ngwaith yn datgelu pryderon ynglŷn ag ymateb Llywodraeth Cymru, byddaf yn tynnu sylw at y pryderon hynny yn yr adroddiad.

Ceir un maes lle teimlaf nad yw Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn ddigonol i un o argymhellion y Pwyllgor. Yn ei argymhelliad olaf, roedd y Pwyllgor yn gofyn i Lywodraeth Cymru ddarparu'r costau sy'n gysylltiedig â diogelu cyflogau yn y GIG yng Nghymru. Yr hyn a ddeallaf i, o ddarllen yr argymhelliad, yw bod y Pwyllgor am i Lywodraeth Cymru roi ffigur neu ffigurau iddo. Yn lle hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu disgrifiad o'r sefyllfa o ran trafodaethau rhwng cyflogwyr y GIG a'r undebau llafur. Er bod yr ymateb yn ddefnyddiol o safbwynt darparu cyd-destun ar gyfer y sefyllfa bresennol, nid yw, yn fy marn i, yn rhoi'r wybodaeth yr oedd y Pwyllgor am ei chael am gostau diogelu cyflogau.

Llinell Uniongyrchol: 029 2032 **0510** E-bost: huw.vaughan.thomas@wao.gov.uk

Hwyrach yr hoffai'r Pwyllgor ysgrifennu at y Swyddog Cyfrifyddu i ofyn unwaith eto am y wybodaeth y mae'n awyddus i'w chael am gostau diogelu cyflogau.  Fodd bynnag, o gofio y byddaf i'n ystyried arbedion sy'n ymwneud â'r gweithlu yn rhan o'm hadolygiad i o berfformiad ariannol a pherfformiad gwasanaethau yn 2013-14, gallwn i roi'r wybodaeth hon i'r Pwyllgor yn fy adroddiad.

Yr eiddoch yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

# Eitem 4

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon